

## LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

**Ferranti 1955-1970; ffatri Cwper Web (injaroc) 1955 am rai fisoedd**

**Cyfwelai:** VN052 Enid Jones  
**Dyddiad:** 16:06:2014  
**Cyfwelydd:** Shan Robinson ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary of the interview following the Welsh text*

Cadarnhaodd Enid ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 23/04/40

Mi ges i fy ngeni ym Methesda, un o ddeg o blant. Fy nhad yn gweithio yn y chwarel a mam adref yn magu'r plant. Roedd gen i 5 chwaer a 5 brawd a chollasom ni un brawd yn 10 mis oed. Magwraeth digon tlawd ond hapus, aelwyd hapus adref, a fy nhad yn eistedd yn canu i ni, amser gorau o fy mywyd i oedd fy mhlentyndod.

*I ba ysgol aethoch chi?*

Ysgol Dyffryn Ogwen. Ysgol Rachub i ddechrau ac yna Ysgol Dyffryn Ogwen.

*Faint oedd eich oed chi yn gadael yr ysgol?*

Pymtheg oed.

*Pam benderfynoch chi adael yr ysgol?*

Roedd rhan fwyaf o blant yn gadael yn bymtheg adeg hynny, dim ond pobol ariannog oedd yn medru mynd yn eu blaenau. Mi es i weithio mewn ffactori yn bymtheg, yn syth o'r ysgol, a ffactori injaroc oedd honno. A gweithio yn galed te, ac esgob, a poeth oedd hi yno.

*Oeddech chi yn hapus i adael yr ysgol?*

Y peth o'n i eisiau o fod yn hogan fach oedd mynd allan i weithio i gael pres i mam.

*Sut ddaru chi glywed am y swydd?*

Trwy ffrind i mam, roedd hi yn gwneud ingaroc yn y tŷ adeg hynny, injaroc number 8 oeddan ni yn ei alw fo. Doedd na neb mond y Morrisys yn medru ei wneud o, a mi nath hi werthu'r resipi i'r ffactori a mynd yno i weithio ei hun, ac mi ges inna waith trwyddi hi yna.

*Roeddech yn hapus i weithio yno?*

O'n, oeddwn i ddim yn gwybod dim gwell, erioed wedi gweithio yn nunlle arall, felly roeddwn yn reit hapus i weithio yna.

*Beth nath i chi ddewis i fynd i weithio i'r ffactori?* Roedd y ddynes yma, Anti Rose oeddan ni yn ei galw hi, wedi sôn a dyma hi yn dweud y bysa hi yn cael gwaith. Nes i ddim meddwl dwywaith am ddim byd arall.

*Oedd unrhyw aelod arall o'r teulu yn gweithio yno neu ffrindiau neu gymdogion?*

Nag oedd, mond cymdogion, cymydog oedd Anti Rose, ond rhai o Fethesda oedd yno i gyd.

*Aethoch chi o'r ffactori roc i weithio i ffactori arall?*

Do es i Ferranti wedyn. Es i i Woolworth am flwyddyn ac o fannu i Ferranti, ag fe fuom i yno am bedwar blynedd ar ddeg.

*Beth wnaeth i chi newid?*

Roedd y pres yn fwy yno. Adeg hynny rodde'ch 'mond mynd i mewn a chael *interview*, ac yn cael cerdded mewn ffordd i mewn i'r gwaith. Roedd yna ddigon o waith, roeddech yn gallu gadael gwaith ar Ddydd Gwener a dechrau swydd newydd ar Ddydd Llun.

*Roedd 'na unrhyw aelod arall o'r teulu neu gymdogion yn gweithio yn Ferranti?*

Oedd, roedd 'na ychydig go lew o rai o'n ni yn eu adnabod o Fethesda yn gweithio yn Ferranti, ond doedd na ddim teulu.

*Oedd rhaid cael cymhwystera?*

Dim byd, a dyna pam es i yna i weithio. Doedd gen i ddim byd, doedd geni ddim GCSE's neu *O level*, fel oeddan ni yn eu galw nhw, roeddech yn gadael yr ysgol yn bymtheg a doeddech chi ddim yn eistedd yr *exams*, ac yn syth i weithio.

*Gawsoch chi gyfweiliad? Do! Pa fath o broses oedd honno?*

Digon peth'na, dim fel ma'n nhw yn ei wneud heddiw. Dim ond mynd i mewn a siarad, a dyna chi, roeddech yn cael y gwaith.

*Pa fath o waith oeddech yn ei wneud?*

Well, fuo fi ar y *meter testing* am flynyddoedd. Hwnnw oedd y swydd fwyaf ges i. Testio *meters* yn barod i fynd allan i Manweb. Cynhyrchu *meters electric* a beth oeddau ni yn ei alw yn *ear defenders* i roi ar glustiau i fynd ar *aeroplanes* a lot o ryw bethau bach oeddau nhw yn ei wneud yna, roedd 'na ychydig o *engineering* yna 'de.

*Oeddech chi yn hapus yno?*

Mi oni wrth fy modd yna, wrth fy modd.

*Disgrifiwch ddiwrnod?*

Ar y *meter testing* roeddach mewn ystafell a honno yn wydr i gyd, roedd 'na *benches* ac roedd gynnoch chi *meters* ar eu hyd nhw. Roeddech yn gorfod mynd rownd nhw efo *screw driver* ac yn cael nhw i ddod i'r union rif oeddech chi eisio. Ddarau chi ddim cael llwch ar ddim byd. Roedd rhaid glanhau'r lle yn lân. Roedd 'na rywun yn dod mewn trwy'r dydd gyda mop, just yn codi'r llwch rhag i'r llwch fynd ar y *meters*. Wedyn roedd 'na gant o *meters* ar y bench roeddach chi arni, ac un o'r hogiau yn dod yna i testio nhw efo chi ar ôl i chi wneud nhw. Roedd un o'r hogiau fel *supervisor* yn dod i destio nhw efo chi. Cael cinio am hanner awr wedi hanner dydd tan un, hanner awr o amser cinio roeddem ni'n ei gael. Dechrau wyth yn bore, panad ddeg o'r gloch, deg munud adeg honno, wedyn cinio hanner awr, a deg munud yn y prynhawn am dri o'r gloch i gael panad arall.

*Sut oedd eich diwrnod cyntaf?*

Roedd o'n beth ofnadwy. Roedd hi'n ffactori fawr. Toeddwn i ddim wedi gweld y ffasiwn beth yn fy mywyd. Cerdded lawr y ffatri, a'r holl bobl, dwi'n siŵr bod 'na tua phum cant o bobl yn gweithio yno. Don ni erioed wedi gweld y fath beth yn fy mywyd. Roedd gen i *butterflies* yn fy stumog, ac ofn methu gwneud y gwaith, honno oedd y boen fwyaf, ofn methu gwneud y gwaith. Roedd pawb mor ffeind yna mewn ffordd, roeddech chi yn ffrindiau. Amser hapus iawn.

*Ddarau chi newid swydd?*

Naddo aros yn fan yna 'nes i Roedd 'na un swydd yn dod i mewn dim ond unwaith pob rhyw ddwy flynedd ag roedd 'na bres mawr am honno. Roedd pawb eisiau mynd am honno, ac mi es i ar honno am ychydig, ond ar y *meter testing* on i fwyaf.

*Faint o ferched oedd yna yn gweithio?*

Yn y ffatri i gyd? Dw'n i ddim faint oedd yno i gyd. Roedd 'na fwy o ddynion na merched fyswn i'n dweud bod 'na tua 300 o ddynion a tua 200 o ferched 'te.

*Gwahaniaeth rhwng gwaith dynion a merched?*

Roedd 'na le roeddent yn galw yn *tool room* lle'r oedd yna mashîns mawr a dynion oedd ar rheiny, rodd na un neu ddwy o ferched yn gallu gweithio ar y mashîns ond dim llawer.

Roedd y merched yn gwneud y jobs eistedd i lawr a dynion yn gwneud y jobsys trwm adeg hynny.

*Oedd y dynion yn cael mwy o dâl?*

O oedd roedd y dynion yn cael mwy o dâl.

*Sut oedd y merched yn teimlo?*

Toeddwn i ddim yn gwybod dim gwahaniaeth, felly oedd hi di bod erioed, efo'r dynion yn cael mwy o bres na'r merched, toeddwn i ddim yn gwybod dim gwahaniaeth, nag oeddan?

*Ddaru'r drefn newid tra bod chi yno?*

Rhwng y merched yn gwneud y gwaith ysgafn 'ar dynion yn gwneud y gwaith trwm? Nag oedd, Nag oedd dim newid o gwbl.

*Oedd na ffordd o symud o swydd i swydd i wella?*

Well oeddech os oeddech eisio, ond 'nes i erioed fod eisio, roeddwn digon hapus lle o'n i, ac roedd y swydd *meter testing* yn swydd go lew. Toedd 'na'm ond 9-10 ohonom yn gweithio yna, a dim pawb oedd yn cael mynd i mewn yna. Fu fi yn un o'r rhai lwcus i gael mynd i mewn yna.

*Pa fath o hyfforddiant? Oedd na rywun yn dysgu i chi wneud y gwaith?*

O oedd, roedd 'na rywun efo chi i drafod y gwaith. Os oedd na rywbeth doeddech chi ddim yn ei ddeallt jyst galw ar un o'r hogiau ac roedden yn dod atoch chi yn syth. Roedd 'na rywun yn cadw golwg arnoch chi drwy'r amser ac yna i'ch helpu chi yn de! Roedd yr hogiau yn uwch nag oeddem ni fel genod, fatha labrwr mewn ffordd roedd y genod i'r hogiau a dwedwch fod nhw yn fforman yn 'de. Roedden nhw yn hen hogiau grêt i weithio efo nhw ac yna pob amser i'n helpu ni. Iesu roedd hi'n le braf yna.

*Oedd yna ferched priod yn gweithio?*

Oedd, roedd fy ffrind i yn un o'r rhai priod. Oedd, roedd 'na lot o ferched priod yno, oedd yn tad.

*Merched priod efo plant?*

Roedd rhai ohonynt efo a rhai ddim, a rhai mewn oed a'i phlant wedi tyfu fyny ac wedi priodi a pob dim.

*Beth am y merched efo plant ifanc?*

Roedd pawb yn rhoi gorau i weithio adeg hynny; ychydig iawn oedd yn cario blaen gosa bod nhw yn byw adref efo'u mam a'u tad yn rhannu tŷ a phethau. Ychydig iawn o rai efo plant bach ifanc oedd yn dal i weithio. Roedd 'na shifft gyda'r nos ac roedd y earched efo plant yn

gallu mynd ar honno. Roedd ei gwŷr nhw yn dod adref i gymryd drosodd, a nhwytha yn mynd i mewn i weithio, yn de?

*Oedd na ddosbarth nos?*

Nag oedd dim byd felly.

*Faint o gyflog?*

Pum punt on i yn ei gael i ddechrau ac wedyn cyn i mi ddarfod yna roedd o wedi dod i fyny i jyst i saith bunt. Cyflog da, mwy o gyflog nag oedd Ken yn ei gael.(Ken gŵr Enid)

*Sut oeddech yn cael eich talu?*

Pres mewn *envelope* pob wythnos. Doedd 'na ddim cyflog yn mynd i'r banc adeg hynny, dim ond *envelope* pob Dydd Gwener, a'r pres i mewn yn yr *envelope*, ac edrych ymlaen at gael y pres.

*Beth am weddill y staff?*

Roedden ni'r genod yn y *test room* yn cael yr un faint, yn de? ond mi oedd yna ffasiwn beth â *bonus* yna. Roedd 'na lein ac roeddech yn cael *bonus* am wneud hyn a hyn, y mwyaf byd oeddech yn ei wneud y mwyaf o *bonus* oeddach yn ei gael. Roedd y *bonus* yn cael ei dalu ar ben y cyflog. Doedd hyn ddim yn bod yn y *test room* gan ein bod ni yn cael mwy am weithio yno

*Gwaith mwy technegol felly?*

Well oedd, roedd 'na *100 volts* yn mynd trwy'r *bench* felly roedd o yn waith peryg. Oedd, roedd rhaid i rywun gadw ei meddwl arno fo, yn de

*Beth oeddech yn gwario eich cyflog ar?*

Well dillad, mynd i *dances*, a chael sigarét adeg hynny, yn de! Roeddwn i yn rhoi dwy bunt ar hugain i mam, neu ar un adeg roedd mam yn rhoi pres poced i mi, dwi ddim yn cofio, tua well! Roedd o dros ddwy bunt, tua hanner y cyflog roeddwn i yn rhoid i mam. Buo fi ddim yn hir nag oeddwn i yn priodi wedyn. Cario mlaen yn y ffatri am 6 mlynedd tan ganwyd y ferch. Adeg yna nes i roi gorau iddi. Ond roedd hi yn 14 mlynedd hapus iawn yn de!

*Oedd na perks?*

Partis clybiau cymdeithasol? Roedd 'na ryw *social evening*, *social club* oeddau nhw yn ei alw fo, ac roedd 'na ryw barti Nadolig. Ond doedd y ffyrm ddim yn rhoi dim byd i ni. Roedd y gweithwyr yn talu tuag at hwnna - yn rhoi rhywbeth, ac roeddynt yn gwneud pethau ar nos Wener weithiau; bob tamaid o bres oedd yn mynd i mewn i hwnnw roeddynt yn ei gadw fo a'i roi allan Dolig. Ond doedd na ddim llawer o ddim yna 'Dolig.

*Oedd 'na Undeb?*

Oedd, roedd 'na undeb ac mi on i yn rhan o'r undeb. Dwi ddim yn cofio rŵan pa undeb oedd o. UNISON oedd o dŵad? Roeddem yn cael *meetings* a streic a phethau felly yn de.

*Da chi wedi streicio?*

O do! Llawer i streic am ryw ddiwrnod neu ddau. Achos y streic oedd tâl neu rywun wedi cael ei stopio a dim yn deilwng o gael ei sacio. Dwi'n cofio un hen ŵr ac roedd o'n weithiwr a mi nathon nhw stopio fo ac mi aeth y ffactri allan i gyd ar streic am ei fod o mor weithgar a nhwytha wedi ei stopio fo am ddim byd mewn ffordd. Ac mi gawsom ni o yn ôl de.

*Trin y gweithwyr yn deg?*

Well oedd a mwn i, fyswn i ddim yn dweud eu bod nhw yn cael ei thrin yn annheg, fyswn i ddim yn dweud hynny o gwbl, roeddynt yn cael eu trin yn dda. Ond roedd rhaid gweithio am y pres.

*Beth am berthynas gyda'r swyddogion?*

Well roedd Ferranti ei hun a'i wraig 'mond yn dod mewn bob hyn a hyn, 'wyrach byswn yn eu gweld nhw rhyw bedair gwaith y flwyddyn. Ac wedyn roedd 'na dau fab, Nigel a Marc adeg hynny, mae Marc yn dal i redeg Ferranti. Roedd Nigel yn bethna iawn ond rŵl mab y bos oedd Marc yr adeg hynny. Ond mae o wedi newid erbyn heddiw ac mae o yn un o'r rhai gorau meddan nhw iddynt weithio iddo, yn de.

*Oeddech yn edmygu'r swyddogion?*

O oeddau ac roedden nhw yn parchu ni. Ac wedyn roeddem yn sbïo fyny arnyn nhw, yn de - y fforman a'r *general* fforman, yn de. Os oeddech chi yn gweithio iddyn nhw, roedden nhw yn iawn efo chi.

*Oedd na iwniform?*

Dim ond overôl felly ac roeddem yn prynu rheiny ein hunain, yn de. Doedd gynnwm ni ddim overôl y ffyrn.

*Gwaith peryglus?*

Oedd, roedd y gwaith yn beryglus ond gafodd neb ei frifo i mi fod yn gwybod amdan.

*Damweiniau?*

Na, dwi'm yn cofio damwain fawr yno. Llawer un wedi torri ei fys a phethau bach ond dim damwain mawr. Roedd hi'n le reit saff i weithio ynddi.

*Iechyd a diogelwch?*

Os oeddech chi ddim yn dda roedd 'na fatha *surgery* bach yna a nyrs. Roeddech yn cael mynd i orwedd lawr yno a pob dim os oeddech chi ddim yn dda neu yn cael eich gyrru adref. Ond roeddech yn colli eich cyflog os oeddech yn cael eich gyrru adref - doeddech chi ddim yn cael eich talu.

*Sut oedd y ffatri yn cael ei gynhesu a'i oleuo?*

*Electric* yn goleuo, ond duw, doedd na ddim llawer o wres yna. Mi oedd 'na ryw faint o wres neu gawsech chi ddim gweithio yna dan reolau'r undeb. Na, doedd o ddim yn le cynnas i weithio. Yn y *meter testing* - roedd honno yn gynnas te, ond doedd y ffactori fawr, doedd honno ddim yn gynnes.

*Sut gyfleusterau?*

Roedd gynom ni un *part* a lle bach - roedd hynny gyda dynion ar y dde a merched ar y chwith ac roedd 'na ddynes yn gwachad ar ôl y toiledau ac os oeddech chi yna yn rhy hir roedd hi ar eich cefn chi yn eich gyrru chi yn ôl i'ch gwaith, hel chi lawr. O, roedd hi'n ddoniol.

*Roeddech yn cael chwarae cerddoriaeth?*

Nag oeddan, nag oeddan, dyna un peth doedden ni ddim yn ei gael, ond fyswn ni ddim yn clwad efo twrw'r mashîns a ballu, byswn ni ddim yn clywed, bysa radio da i ddim i ni, yn de.

*Sut oeddech yn cyfathrebu?*

Well peth digri, roeddech chi yn gweiddi siarad, ac roeddech chi yn clywed naill a'r llall, yn de.

*Oedd hyn y boblogaidd - oedd pawb yn siarad gyda'i gilydd?*

Oedd, os oeddach chi yn eistedd wrth ochor. Ond doeddech chi ddim yn cael mynd i sefyll at rywun i siarad 'de. Roedd 'na rywun ar eich cefn chi os oeddech chi yn sefyll i siarad efo rhywun. Doeddech chi byth yn meddwl gwneud hynny achos roeddech chi o dan bethma; nad oeddech chi'm i gael, de. Ond os odach chi yn gweithio wrth ochor rhywun roeddech chi yn siarad tra'n cydweithio. Ond doeddech chi ddim yn stopio gweithio i gael sgwrs efo neb, 'de.

*Pa fath o sgwrs?*

Dibynnu lle roeddech chi 'di bod noson cynt, wedi bod allan a sut noson oeddech chi wedi cael, pethau felly. Pawb yn dŵad â'i bwt bach i mewn, yn de.

*Oeddech yn cael ysmygu tra yn gweithio?*

Nag oeddan, a dyna pam roeddem yn mynd i fyny i'r toilets i wneud yn slei, ac yn cael ein hel i lawr.

*Gwaith yn cael effaith tymor hir ar eich iechyd?*

Naddo, dim o gwbl.

*Sut oedd y merched yn trin y dynion, oedd na lot o dynnu coes?*

Roedd 'na lot o dynnu coes, oedd, a gwneud rhyw bethau, mwyaf slei, a gwneud sbort am bennau nhw. Fatha gyrru un hogyn newydd ddechrau, rhyw *apprentice* bach, i nôl "*elbow grease*", a hwnnw yn sefyll yn nrws y stors yn disgwyl am "*elbow grease*", a'r boi *stores* yn gwybod yn iawn beth oeddem ni wedi gwneud, a phawb yn sefyll tu ôl iddo, a'r peth bach yn pethna, ac yn dod nôl ac yn dweud nad oedd gynnwys nhw ddim "*elbow grease*" yn y *stores*. Rhyw bethau bach fel 'na, pethau bach diniwed, ond roedd o'n sbort hefyd i ni adeg hynny.

*Roedd 'na lot o jôcs rhwng y dynion ar merched?*

Oedd, oedd tad! A dweud y gwir roedd y dynion yn hawsach i weithio efo na'r merched, a bod yn onest.

*A roeddech chi yn cymryd rhan yn y tynnu coes?*

O oeddaf, ac yn cael tynnu coes fy hun hefyd, yn de.

*Ar ôl priodi, sut oedd eich gŵr yn teimlo gan eich bod yn gweithio mewn ffactri?*

Adeg hynny toedd gennym ni ddim pres, wedyn roedd rhaid gweithio i gael cartref at ei gilydd, toedd. Yr unig ffordd o gael cartref at ei gilydd oedd gweithio. Na, nath o erioed sôn, a toedd ei gyflog o ddim digon mawr a bod yn onest. Naw punt yr wythnos, ac roedd rent adeg hynny yn *three pound nineteen and six*, a phunt o bres bys i Benmaenmawr am yr wythnos. Roeddech yn cael mynd am bunt am yr wythnos. Ac wedyn roedd rhan fwyaf o gyflog Ken wedi mynd. Wedyn mewn ffordd roeddwn i yn gorfod mynd i weithio.

*Gan eich bod eich dau yn gweithio, roedd eich gŵr yn helpu gyda gwaith tŷ?*

Mae o wedi bod yn un da erioed am helpu o gwmpas y tŷ. Da ofnadwy, dwi ddim yn gwybod be 'di golchi llestri na llunau *cooker*. Mae o wedi ei wneud o ar hyd y blynyddoedd. Na, mae o wedi bod yn un da ofnadwy am fy helpu erioed.

*Faint o ddyddiau oeddech yn ei weithio?*

Pum diwrnod yr wythnos o Ddydd Llun at Ddydd Gwener, yn de.

*Faint o oriau mewn diwrnod?*

*Forty hours* oedd o dŵad? Na, *forty eight* i ddechrau ac wedyn daeth o lawr i *forty five*, ia. Dwi'n siŵr mai *forty five* oedd o pan roeddwn i'n gadael.

*Pa fath o shiffiau oedd ar gael yn y ffatri?*



Oedd 'na nos yna, roddan nhw yn gwneud nos yna. A ddaru nhw ddod â shifft gyda'r nos allan hefyd.

*Ddaru chi wneud rhai o'r rhain?*

Naddo dim ond yr un shift wnes i.

*Oedd rhaid clocio mewn yn y bore?*

O oeddau a chlocio allan ar y ffordd allan. Ac wedyn roedd 'na fsys gwahanol yn mynd i Gaernarfon, bysys gwahanol yn mynd i dopiau Bangor, a bysys i Fethesda tu allan ac roeddech yn rhedeg am y bus cyn i'r bus fynd o'ch blaen chi.

*Oeddynt yn gofyn i chwi wneud oriau ychwanegol?*

O do fyddwn i'n gwneud lot o fore Sadwrn. Roedden ni'n cael *extra* - roedd pawb eisiau'r bore Sadwrn i gael yr *extra* pres, de. Egwyl? Deg munud yn bore am ddeg o'r gloch, hanner awr amser cinio, hanner wedi hanner dydd tan un amser cinio, a deg munud am dri o'r gloch i gael panad dri, de.

*Beth oedd yn digwydd?*

Doedden ni ddim yn mynd i'r cantîn yn y deg munud, doedd na ddim digon o amser. Roeddech yn eistedd lawr ac roedd eich ffrind yn dod draw ac yn eistedd i gael paned a rhywbeth i fwyta, ond paned roedden ni yn ei gael rhan fwyaf yn enwedig am dri o'r gloch, de. Pam oeddem ni yn y *meter room*, roedd gynom ni, beth oeddau nhw yn ei alw, yn *shelters* flynyddoedd yn ôl. Yn fanna oedd *gang* ni yn bwyta. Toeddwn i ddim yn mynd i'r ffactri fawr, roeddem ni yn mynd i fanna i fwyta, te.

*Bwyd eich hun o adref?*

O ia bwyd o adref, eich bwyd chi'ch hun bob tamed, o adref. Prynu *tea bags* neu ddod â fflasg o de neu goffi efo ni. Roedd 'na gantîn yna ond roedd y cantîn yn bell o le oeddwn i. Gorfod mynd trwy'r ffactri fawr ac allan pen arall lle oedd yr offisys i gyrraedd y cantîn, yn de.

*Oedd tâl am wyliau?*

O oedd, roedd y ffactri yn cau am bythefnos adeg yr haf - wythnos ddiwethaf yn *July* a'r gyntaf yn Awst. Roedd y ffactri i gyd yn cau adeg hynny. Roeddech chi ddim yn cael dweud bod chdi eisiau gwyliau o adeg i adeg, dim ond cymryd pan oeddau nhw yn dweud. Roeddem ni yn cael ychydig o ddiwrnodau 'Dolig fel diwrnod 'Dolig a *boxing day*, de. Ac wedyn Pasg, roeddem yn cael *weekend* Pasg off. Ond dim fatha ma'n nhw yn cael heddiw. Doedd 'na ddim gymaint o *holidays* adeg hynny.

*Lle fysech chi yn mynd ar eich gwyliau?*

Ychydig iawn oedd yn mynd i ffwrdd dros y môr, i Butlins a llefydd fela roedd y rhai oedd yn mynd rhan fwy'n mynd. Na gwyliau ni oedd trip ysgol Sul i Rhyl. Roedd hwnnw yn ddiwrnod arbennig.

*Diwrnod personol?*

O oedd adeg hynny er mwyn claddu a phethau felly, oedd tad. Roedd tâl am bethau felly os yn y teulu ond nid i gynebryngau neb arall, doedd na ddim tâl i hynny.

*Sut oeddech yn teithio i'r gwaith?*

Bys Crosville adeg hynny, ac wedyn dechrau trafeilio drwy rannu car gyda rhywun. Dyn oedd yn byw yn ben y lôn. Roeddem yn cael mynd efo fo, a oedd yn lot rhatach na'r bys a dweud y gwir. Faint oeddau ni yn ei roi - rhyw *fifty pence* neu bunt iddo am yr wythnos, te. Roedd o'n rhatach i ni na'r bys.

*Pa mor bell oeddech yn trafeilio?*

Tua chwe - saith milltir o Fethesda i'r ffactori. Dal bus am ugain munud wedi saith ac roedden ni'n dod adref yn ôl tua chwarter i chwech.

*Oedd na weithgareddau cymdeithasol?*

Na, ychydig iawn o bethau fel'na oedd yna. Roedd ffrindiau gwaith a ffrindiau adref, ychydig iawn o ffrindiau gwaith oedd yn ffrindiau adref.

*Oedd clwb yn y ffactri?*

Oedd, ond ychydig iawn oeddwn i yn mynd gan fod rhai dal bys adref ac yna bys yn ôl. Doedd o ddim o'i werth o. Merched oedd yn y clwb fwyaf, merched Bangor - y rhai oedd yn byw yn lleol. Ychydig iawn o ddynion oedd.

*Cofio ymweliad gan rywun pwysig?*

Ydw dwi'n cofio rhyw MP a phawb yn disgyn o flaen ei draed o am ei fod o'n rhywun. Roedd o'n bishyn o ddyn hefyd ond dwi ddim yn cofio'i enw fo. Na doeddem ni ddim yn cael. Gweithio oeddach chi a dyna o, yn de. Doeddech chi ddim yno i gael nabod neb na dim. Roedd y Ferrantis yn rhai garw am eu pres. Ac felly roeddynt eisiau gymaint o waith a cai nhw allan o'u gweithwyr.

*Oeddech yn mwynhau?*

Do mi wnes i fwynhau pob munud. Buo fi erioed yn dod adref yn dweud, 'sa dda gen i newid job neu beth felly.

*Pryd ddaru chi adael y ffactri?*

Well gadael i gael y ferch, disgwyl babi, ac adeg yno doeddech ddim yn mynd nôl ar ôl cael babi. Doedd na neb i warchod y plant i chi gael mynd yn ôl. Roeddwn wedi dod i fyw i Lanfairfechan erbyn hyn a bysa Mam ym Methesda ddim yn medru gwarchod i mi. Roeddech yn rhoi eich gwaith i fyny yn naturiol pan roeddech yn mynd ar fabi. Ychydig iawn oedd yn mynd yn ôl i weithio - dim ond *teachers* a ballu.

*Sut deimlad oedd eich diwrnod olaf?*

Crio nes i, wedi ypsetio yn lân, de. Fuo rhaid i mi ddarfod yn gynt nag o'n i eisiau a dweud y gwir. Wedi mynd i Iwerddon i briodas, a dim yn dda ar ôl dod yn ôl. Felly roedd rhaid i mi roi gorau iddi yn gynt na mod i eisio. Mi ddaru hynny ddistyrbio fi. Do, mi gollais i'r hen ffactri.

*Am faint o hyd roeddech yn gweithio yn Ferrantis felly?*

Pymtheg mlynedd.

*Faint o hyd roeddech yn gweithio yn y ffactri injaroc?*

Blwyddyn yn Cwper Web - y ffactori injaroc. Gwaith tymor gan eu bod yn gwerthu injaroc dros yr haf, gwaith tymor oedd honna. Roeddwn yn falch dod o'na gan fod fy mreichiau wedi eu llosgi drwy rollo injaroc poeth.

*Roedd amodau gwaeth yn y swydd honno?*

O oedd, roedd hi yn boeth iawn yn enwedig yn yr haf a'r injaroc yn berwi. Rhyw ddeg oedd yno yn gweithio. Wedi cymryd darn o ffactori arall i ddechrau ffactori injaroc roeddynt ym Methesda.

*Beth wnaethoch chi ar ôl darfod yn Ferranti?*

Adref yn cael babi ac ati. Wedyn myny i llunau i ryw hen wreigan, ond nes i ddim para yn hir yn fan yna. Mi ges i baned o de a hwnnw wedi stiwiwio. Gwraig Doctor Bellis ddaru ofyn i mi gymryd y swydd ond nes i ddim para yna. Gwaith ffactri yn llawer haws.

*Ddaru chi gadw cysylltiad â'ch cyd-weithwyr?*

Dwi yn dal i fod mewn cysylltiad efo rhai oedd yn y ffactri efo fi. Mae 'na un yn byw yn Neiniolen, Cis Rowlands - mae jyst yn nawdeg a da ni'n dal i fod mewn cysylltiad. Y cerdyn post cyntaf i ddod pob blwyddyn yw un Cis, ac mi fyddaf yn ffonio bob hyn a hyn. Mae gen i ffrind arall - Glenys o Ddeiniolen oedd hi. A Nesta o Rachub, mae Nest a fi, - fy ffrind gorau oedd Nest, ella welwn ni ddim o'n gilydd am naw mis ond fasach chi yn meddwl ein bod wedi gweld ein gilydd ddoe.

*Wrth edrych yn ôl sut oeddach yn teimlo am y gwaith?*

Fedra i ddim cwyno o gwbl, ‘mond dweud mor hapus on i yna. Wedi gwneud lot o ffrindiau mewn ffordd. Ond mi fyswn i yn mynd yn ôl a gwneud yr un peth eto, yn de.

*English summary*

**Ferranti 1955-1970; Cooper Webb (India rock) factory for some months in 1955**

**Interviewee: VN052 Enid Jones**

**Date: 16:06:2014**

**Interviewer: Shan Robinson on behalf of Women’s Archive Wales**

Enid was born on 23<sup>rd</sup> April 1940. She was one of ten children and was brought up in Bethesda. Her father worked in the quarry and her mother was a housewife. She had five sisters and five brothers but lost one brother when he was only ten months old. She went to Rachub School and then went on to Dyffryn Ogwen School. In those days the only children who stayed on in school were those whose families had plenty of money so the majority left when they were fifteen years old, as Enid did. She was eager to go and earn money to help her mother and went straight into factory work in the ‘injaroc’ rock factory.

She heard that there was work available and got the job through a friend of her mother’s she called Anti Rose. The friend made the No. 8 rock in her home, sold the recipe to the factory and went to work there herself. Enid knew neighbours and people from Bethesda who were already working there as well as Anti Rose.

After working in the rock factory she worked in Woolworth for a year and then on to Ferranti where she worked for fourteen years. She was attracted there by higher wages. Work was plentiful at the time and you could leave one job on the Friday and start another on the Monday. She knew people from Bethesda working in Ferranti as well. She didn’t need qualifications and that’s one of the reasons why she went to work there. She didn’t have any O levels, having left school at fifteen without having sat any exams. The recruitment process was quite informal – she just went in for a chat and got a job.

She worked on the meter testing there for years – testing the meters that would go out to Manweb. They produced electric meters, ear defenders (used on aeroplanes), and did some engineering work there.

She loved it there. The meter testing took place in a glass room. There were meters laid out on benches and she had to go round and make sure they reached the exact number required. The place had to be kept clean and somebody would come in with a mop to clean and ensure that the meters remained dust free. There would be a hundred meters on the bench, and one of the male supervisors would come to test them after she had done them. They started at eight o'clock in the morning, had a ten minute break at ten o'clock, half an hour for lunch from half past twelve until one o'clock, and a ten minute break in the afternoon at three o'clock.

Enid remembers her walking through the factory on her first day there. There were about five hundred people working there. She had butterflies in her stomach and was worried she wouldn't be able to do the work. Everybody was very friendly there and it was a very happy time for her. She remained on the same job while she was there. A vacancy would come along about every two years and would pay good money so everybody would go for it.

There were more men than women working there – approximately 300 men to 200 women. The men worked in the tool room, although there were one or two women working there as well. The men did the heavy jobs and were paid more than the women. Enid didn't mind as she didn't know any different. It was possible to get a better job but Enid was happy meter testing, which was quite a good job anyway. There were only 9 – 10 of them working there, and considers herself lucky to have been one of them.

If she didn't understand anything about the work she could call on one of the men and they would come over straight away. There was somebody keeping an eye on them all the time. The men were senior in rank to the women. They were good to work for and always prepared to help.

There were many married women working there, some with grown up children. Women tended to give up work when they had children, and quite often shared a house with their parents. There was a night shift and the women who had young children could work on that shift as their husbands could take over the children care responsibilities at night.

Enid earned five pounds when she first started there which had increased to seven pounds by the time she finished, which was more than her husband Ken's wage. She was paid weekly and would receive an envelope every Friday. The girls in the test room were paid the same amount and couldn't earn the bonuses that other workers earned as they were already on good pay. It was quite dangerous work as there 100 volts going through the bench.

Enid would spend her money on clothes, going to dances and buying cigarettes. She gave her mother over two pounds of her wages every week until she got married. She carried on working in the factory for six years until her daughter was born, and spent fourteen happy years there.

The workers contributed towards a social club, and there would sometimes be social events held on a Friday night. The celebrations at Christmas time were minimal. There was a union

and Enid was a member. There were several one day and two day strikes usually over pay or because somebody had been sacked unfairly. Enid remembers one old man being unfairly dismissed so they went on strike in support of him because he was such a hard worker and got him re-instated. Nevertheless, Enid thinks the workers were treated well but they had to work hard for their money.

Ferranti and his wife didn't visit the factory often, probably only four times a year. They had two sons, Nigel and Marc. Marc runs Ferranti today. The workers respected the foreman and general foreman, and if you did your work you were fine. The company didn't provide overalls – the workers bought their own.

There was a little surgery in the factory where the nurse worked and where workers could go and lie down if they were feeling unwell. They could be driven home if they were ill but wouldn't then get paid.

There wasn't much heating in the factory itself but it was warm in the meter testing area. A woman looked after the toilets and if anybody was there for too long she would send them back to work. The machines were quite noisy and so they would shout to communicate with each other. It was too noisy for a radio. They weren't allowed to go over and speak to anybody but could chat to the person next to them as they worked. They usually chatted about where they'd been the previous meeting. Smoking wasn't permitted on the factory floor so they would go to the toilets for a 'sly' cigarette.

There was a lot of leg pulling and playing tricks in order to initiate new members of staff, such as sending a young apprentice to the stores to get 'elbow grease'. It was all innocent fun. Enid thinks the men were easier to work with than the women. She carried on working after getting married because they needed the money. Her husband was only earning nine pounds a week and their rent was three pound, nineteen and six. His bus fare to Penmaenmawr cost one pound a week so there would be little of Ken's wages left after they'd paid all these costs. Ken was very helpful with the chores around the house.

The working week was Monday to Friday and forty eight hours at the beginning. This was reduced to forty five over time. There was a night shift at the factory but Enid never worked it. The workers would have to clock in in the morning and clock out on the way out before running to catch the bus. There were buses taking workers to Caernarfon, Bangor top and Bethesda. Enid worked many Saturday morning and was glad of the extra money. There was a ten minute break in the morning at ten, half an hour for lunch and a ten minute break at three o'clock in the afternoon. The breaks weren't long enough to allow them to go to the canteen as they were only ten minutes long and the canteen was quite far away. They had what they called 'shelters' in the meter room and that's where her gang would eat. She would bring her own food and tea or coffee.

The factory closed completely for a fortnight during the summer – during the last week in July and the last week in August. They weren't allowed to choose when they took their leave.

They were off for a few days around Christmas too, namely Christmas Day and Boxing Day. They would also be off for Easter weekend. Very few workers went abroad on holiday. Most went to Butlins and places like that. Enid's holiday was the Sunday School trip to Rhyl. That was a special day. They could get a day off for personal reasons such as attending a relative's funeral and would still be paid but not for other funerals.

Enid travelled to work by the Crossville bus and later on would get a lift from a man who lived at the top of the street, and would give him fifty pence or a pound. This was cheaper than getting the bus. It was six or seven miles from Bethesda to the factory. The bus would leave at twenty past seven and she would be home by quarter to six.

There weren't many social activities. She had work friends and friends from home and few were both. Enid couldn't go to the club because it meant getting the bus home and back again so it wasn't worth it. It was mainly the women from Bangor who lived locally who went to the club. Very few men went there.

Enid remembers a visit from an MP but can't remember his name. The Ferrantis would make sure they got their money's worth out of their workers. Enid enjoyed every minute working there. She left to have a baby and in those days women didn't return to work. She was living in Llanfairfechan by then and her mother was living in Bethesda and so wouldn't have been able to care for the child. She cried on her last day. She had to finish earlier than anticipated because she had become unwell, and missed the factory terribly. She had worked there for fifteen years.

She worked in Cooper and Web rock factory for a year. She would be glad to get out of there because her arms would be burnt from rolling the rock. It was very hot there, especially in the summer when the rock would be boiling. There were only about ten people working there and had taken part of another factory in Bethesda as premises initially.

After finishing in Ferranti and having the baby she went on to work as a cleaner for an old woman but this didn't last long. She thinks that factory work was much easier than dealing with people. She is still in contact with people who worked in the factory with her, in particular Cis Rowlands from Deiniolen who is nearly ninety. She had another friend called Glenys from Deiniolen, and her best friend Nest, who she sees from time to time.

**She has no complaints about working at the factory and made many friends there. If she had her time back she would have done the same thing again.**